

Newyddlen

Tachwedd 2008

PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY



Y NEWYDDION DIWEDDARAF I HOLL STAFF Y BRIFYSGOL

Canolfan y Celfyddydau ac Arloesi newydd

xx

Mae Prifysgol Bangor wedi cyhoeddi cynlluniau ar gyfer Canolfan y Celfyddydau ac Arloesi newydd cyffrous ac uchelgeisiol i gymryd lle Theatr Gwynedd ac adeilad Undeb y Myfyrwyr ym Mangor.

Mae Capita Percy Thomas, penseiri Canolfan Mileniwm Cymru, wedi datblygu opsiynau fydd yn costio rhwng £25m a £30m.

Bydd yr adnoddau yn cynnwys llety ar gyfer Gwasanaethau'r Myfyrwyr, clwb nos ac undeb myfyrwyr, yn ogystal ag amrywiaeth o ystafelloedd addysgu a dysgu newydd yn cynnwys darpariaeth rhyngwyd diwifr a fydd ar gael i'r gymuned leol yn ogystal â'r Brifysgol.

Bydd y ganolfan hefyd yn cynnwys cyfleusterau celfyddydau amgenach o lawer ar gyfer yr holl gymuned gan gynnwys theatr, darlithfeydd, manau arddangos, bar a chaffi. Mae darpariaeth hefyd ar gyfer amffitheatr allanol y gellid ei ddefnyddio ar gyfer rhai perfformiadau.

Ymysg yr opsiynau dan ystyriaeth yw'r posibilrwydd o



Ymysg yr opsiynau dan ystyriaeth yw'r posibilrwydd o ddarparu cyswllt hyblyg a fydd yn galluogi'r theatr i ehangu yn awditoriwm gyda 900 o seddau ar gyfer rhai perfformiadau, trwy ei chyfuno â darlithfa fydd uwch ei phen.

ddarparu cyswllt hyblyg a fydd yn galluogi'r theatr i ehangu yn awditoriwm gyda 900 o seddau ar gyfer rhai perfformiadau, trwy ei chyfuno â darlithfa fydd uwch ei phen.

Bydd yr adeilad yn cynnwys canolfan arloesi cerdd fydd yn cynnwys man perfformio amlgyfrwng gyda'r dechnoleg sain a'r dechnoleg ddelweddu ddiweddaraf.

Bydd y diwydiannau celfyddydol a chreadigol yn gallu gweithio ochr yn ochr ag arbenigwyr gwyddoniaeth a thechnoleg i greu perfformiadau yn ogystal â sgiliau a swyddi newydd yn yr ardal leol.

Mae Theatr Gwynedd ac Adeilad yr Undeb angen cael eu trin yn sylweddol ac nad ydynt yn addas mwyach. Yn

ystod haf 2006 cytunodd y Brifysgol, ar ôl ymgynghori â Chyngor y Celfyddydau a Theatr Gwynedd, i gywiro rhai o'r diffygion gwaethaf yn adeilad y Theatr ar gost o dros £250,000, gyda'r rhan fwyaf o'r arian yn dod gan Gyngor y Celfyddydau. Fodd bynnag, mae wedi dod yn amlwg erbyn hyn mai adeilad newydd yw'r ffordd orau a mwyaf cost-effeithiol ymlaen oherwydd y symiau sylweddol sydd eu hangen i drin problemau cynnal a chadw gan gynnwys materion mecanyddol, trydanol ac asbestos yn yr adeilad.

Fel sydd eisoes wedi ei gyhoeddi, bydd Theatr Gwynedd yn cau yn yr hydref eleni, a chan bod yr astudiaeth ddichonoldeb wedi ei chwblhau yn brydlon, gall y gwaith ddechrau mewn cyn lleied â 18 mis er mwyn agor yr adeilad yn niwedd 2011, gan ddibynnu ar faterion cyllido.

Am wybodaeth bellach ewch i www.bangor.ac.uk/celfyddydauacarloesi

yn Fyr

LLWYDDIANT RECRIWTIO

Mae'r Brifysgol wedi bod yn llwyddiannus eto o ran nifer yr israddedigion newydd a dderbyniodd eleni, gan gofrestru tua 2,500 o fyfyrwyr newydd. Ar ôl cynnwys ôl-raddedigion, mae cyfanswm y myfyrwyr newydd ym Mangor o gwmpas 3,350 eleni. Dyma'r nifer mwyaf erioed, sy'n cynrychioli cynnydd o tua 10% mewn recriwtio israddedigion, a'r bumed flwyddyn yn olynol i weld cynnydd mewn derbyniadau.

Er bod hyn yn newyddion rhagorol, nid oes cyfle i orffwys, a rhaid ymdrechu drwy gydol y flwyddyn i gynnal rhaglen recriwtio llwyddiannus.

GWOBR BMA I'R ATHRO REES

Mae'r Athro Michael Rees, Athro mewn Astudiaethau Fasnolaidd a Phennaeth Gweithredol Ysgol Gwyddorau Meddygol newydd y Brifysgol, wedi derbyn *Association Medal* gan y *British Medical Association*. Mae'r Fedal yn cydnabod ei wasanaeth neilltuol a chyson i'r BMA a'i gyfraniad i feddygaeth a'r byd academaidd.

Mae'r Athro Rees wedi bod yn aelod gweithgar o'r BMA gydol ei yrfa, ac mae ei waith helaeth ar gyfer Pwyllgor Staff Academaidd Meddygol y BMA (MASC) wedi bod yn rhagorol ac ysbrydoledig yn ôl y cyflwyniad pan gafodd y Fedal. Mae'r Athro Rees wedi bod yn aelod o MASC er 1995 ac yn Gadeirydd iddo er 2003. Bu'n llwyddiannus wrth gyd-drafod contractau academaidd newydd i glinigwyr y Brifysgol, a chwaraeodd ran allweddol yn y trafodaethau ynghylch llwybrau hyfforddiant academaidd newydd i glinigwyr. Yn ôl y cyflwyniad, "mae ei ymwneud â chynllunio hyfforddiant meddygol academaidd yn neilltuol, yn ogystal â'i ddadansoddiad beirniadol o faterion ymgynghorwyr yn ymwneud ag ymchwil ac addysg."

Mae ei gyflawniadau i'r Gymdeithas ac i academyddion clinigol ym Mhrydain yn creu mwy o argraff byth o ystyried bod hyn yn cyd-redeg â'i yrfa academaidd. Mae hyn yn cynnwys dros 90 o gyhoeddiadau cyfnodolion a adolygwyd gan gydweithwyr yn ymwneud â'i ddiddordebau ymchwil mewn radiolog ymyrol, yn ogystal â phenodau llyfrau a chyhoeddiadau addysgol eraill a chyhoeddiadau'n gysylltiedig â pholisïau. Y mae hefyd wedi'i ardstio i ymarfer mewn meddygaeth niwclear a radiolog.



Dathlu Agor Caffi Bar Uno

Yn ddiweddar, agorodd y Caffi Bar hir-ddisgwyliedig, 'Bar Uno', ar Safle Ffriddoedd; yr ychwanegiad diweddaraf at y datblygiad cyffrous gwerth £35m ar Safle Preswyl Ffriddoedd.

Mae'r Caffi Bar yn ganolfan gymdeithasol ac yn rhan annatod o Safle Ffriddoedd ar ei newydd wedd. Mae'n lle cymdeithasol i fyfyrwyr ar y naill law, ac ar y llaw arall, bydd Bar Uno yn apelio at staff a'u gwesteion fel lle gwych i gyfarfod, bwyta neu gynnal cyfarfodydd anffurfiol yn ystod y dydd neu gyda'r nos.

Mae Bar Uno wedi'i leoli o dan y Swyddfeydd Ystadau a Chyfleusterau, gyda mynediad drwy Ffordd Ffriddoedd. Mae yno fwydlen newydd ddeniadol, iach a chyffrous a bydd ar agor drwy gydol y gwyliau. Yr oriau agor yw 8.00am tan hanner nos, gyda

▲ Mae staff Ystadau a Chyfleusterau ymysg y rhai sy'n mwynhau gweithgareddau agoriadol Bar Uno

bwyd yn cael ei weini tan 9.00 pm. Bydd ar agor o 10.00am ddydd Sul.

Yn y cyfamser, mae staff Ystadau a Chyfleusterau yn derbyn adroddiadau cadarnhaol gan y tua 700 o fyfyrwyr newydd sydd wedi symud i mewn i'r 6 neuadd newydd. Mae'r rhain yn darparu'r math o neuadd fodern mae myfyrwyr heddiw yn eu disgwyl, ac maent wedi cymryd lle'r rhan fwyaf o'r stoc preswyl hyn yn awr. Disgwylir i'r ail gam, sy'n golygu 450 yn rhagor o ystafelloedd newydd, fod ar gael erbyn Medi 2009. Mae'r neuaddau newydd yn golygu bod y Brifysgol yn gallu cynnig llety o'r ansawdd uchaf i fyfyrwyr presennol ac yn y dyfodol.

Y GYFRAITH YN DERBYN RHODD RYNGWLADOL

Mae Ysgol y Gyfraith wedi derbyn rhodd i gefnogi cynnydd mewn myfyrwyr rhyngwladol yn Ysgol y Gyfraith. Gwnaed y rhodd gan rieni myfyriwr Gwyddelig, [David Nevins, Dosbarth Graddio'r Gyfraith 2007] i gydnabod y profiad gwych gafodd eu mab fel myfyriwr wrth astudio ym Mhrifysgol Bangor.

Bydd y rhodd yn ffurfio'r 'Rhadlen Cyswllt Rhyngwladol a Datblygu Diwylliannol Wexford' yn yr Ysgol.

"Mae'r rhodd hael hon yn galluogi i'r Ysgol newydd wneud datblygiadau cyffrous iawn, ac mae'n gyfartal â rhai o'r cronfeydd hanesyddol sydd ar gael i Ysgolion hyn Bangor," eglura'r Athro Dermott Cahill, Pennaeth Ysgol y Gyfraith. "Bydd y gronfa'n ein galluogi i gynnig gwobrwyon, ysgoloriaethau a bwrsariaethau i israddedigion ac ôl-raddedigion o Ewrop a gwledydd tramor eraill, a bydd yn hwyluso cyfnewid staff a myfyrwyr rhyngom ni a sefydliadau tramor."

Prince Madog yn Lansio Polisi i'r Co-Op

A hithau fel arfer yn cael ei defnyddio ar gyfer ymchwil neu ddysgu gan staff a myfyrwyr Ysgol Gwyddorau Eigion y Brifysgol, bu llong ymchwil y Prince Madog ar drip tra gwahanol yn ddiweddar. Gwahoddwyd yr Ysgol i ddod â'r llong a gwesteion gyda hwy i Lundain er mwyn lansio Polisi Pryniant Cyfrifol o Bysgod ar gyfer holl gynnyrch pysgod y Co-op. Mae'r Co-op hefyd wedi clustnodi



Prince Madog newydd fynd o dan Tower Bridge

£200,000 dros ddwy flynedd i gefnogi pysgodfeydd sy'n ceisio cyrraedd Tystysgrif y *Marine Stewardship Council*.

Trodd y Co-op at Mike Kaiser, Athro mewn Ecoleg Cadwraeth Môr yr Ysgol Gwyddorau Eigion, am gyngor ac arweiniad ar sut i greu'r polisi newydd. Mae'r Athro Kaiser yn awdurdod ar bysgodfeydd cynaliadwy ac yn aelod o fwrdd Seafish - corff cyhoeddus sy'n hybu a chefnogi'r diwydiant bwyd môr.

Meddai'r Athro Kaiser, "Roeddem yn awyddus i gefnogi'r digwyddiad yma oherwydd yr hyn y mae'r Co-op ac eraill yn ei wneud i hybu arferion pysgota

cynaliadwy. Rydym yn falch o gael rhannu'n harbenigedd ar faterion yn ymwneud â physgota i helpu'r Co-op gyrraedd ei nod."

"Mae'r Co-op yn buddsoddi arian er mwyn annog mwy o bysgodfeydd i ymgeisio am dystysgrif y *Marine Stewardship Council*, corff sy'n gosod y safonau uchaf ar gyfer ymgymhwyso fel pysgodfa gynaliadwy."

Mae'n credu y byddai polisi'r Co-op yn gwneud gwahaniaeth mawr i bysgota yn y DU.

"Rwyf wedi bod yn gweithio yn y maes ymchwil yma ers 17 o flynyddoedd bellach ac yn y tair blynedd ddiwethaf rwyf wedi

gweld newid cadarnhaol dros ben yn ymddygiad ac agwedd pysgotwyr yn y DU," meddai.

"Wrth gymryd y safiad yma, mae'r Co-op ac adwerthwyr eraill wedi cau'r marchnadoedd ar gyfer bwyd o'r môr sydd wedi'i bysgota drwy ddefnyddio arferion nad ydynt yn gynaliadwy. Bydd pysgotwyr ar eu hennill o ddod â llai o bysgod i'r lan, ond rhai o well ansawdd, ac yn y tymor hir, golyga hyn foroedd a chyflenwadau pysgod iachach, ac yn y pen draw, mwy o bysgod i ni eu bwyta."

Roedd y Brifysgol yn gallu bod o gymorth i'r Co-op trwy gyngor ac arbenigedd.

Meddai'r Athro Siân Hope, Dirprwy Is-Ganghellor dros Drosgrlwyddo Gwybodaeth a Menter ym Mhrifysgol Bangor, "Dyma enghraifft syml ond effeithiol o sut y gall rhannu ein harbenigedd ag eraill gael effeithiau pwysig ac uniongyrchol ar ein bywydau bob dydd. Ym Mangor, rydym wedi ymrwmo i gydweithio â diwydiant, busnes a chyrrff cyhoeddus, gan sicrhau bod ein harbenigedd a'n medrau ymchwil ar gael iddynt."

Cynrychiolydd o'r Academi AU



Yr Athro Smith yn trafod gyda Karen Jones o'r Ysgol Gwyddorau Cymdeithas yn ystod y gweithdy.

Cynhaliwyd y gweithdy cyntaf yn ddiweddar mewn cyfres o weithdai ar ddysgu ac addysgu gan yr Uned Datblygu Academaidd. Cyflwynodd Yr Athro Brenda Smith o'r Academi Addysg Uwch ddwy sesiwn i staff y Brifysgol. Roedd sesiwn y bore'n canolbwyntio ar sut yr ydym yn asesu ein myfyrwyr a chafwyd enghreifftiau o ffyrdd ymarferol i wella profiad cyffredinol myfyrwyr. Yn ystod y prynhawn, edrychodd Yr Athro Smith ar sut y gallwn wneud adborth yn fwy effeithiol i staff a myfyrwyr. Roedd y ddwy sesiwn yn cynnwys cynrychiolwyr o amrywiaeth eang o ysgolion ar draws y Brifysgol.

Mae'r Athro Smith, Uwch Aelod Cyswllt yn yr Academi Addysg Uwch, yn cael ei ystyried fel ffigur blaenllaw ym Mhrydain. Mae hi hefyd wedi bod yn ymwneud â nifer o fentrau ym Mhrydain fel y *Scottish Quality Enhancement Agenda*, *menter y Centres for Excellence in Teaching and Learning*, ac ymgwymerodd â dadansoddi Strategaethau Sefydliadol Addysgu a Dysgu Cymru.

Gellwch weld y rhaglen ar gyfer gweithdai'r dyfodol drwy wefan yr Uned Datblygu Academaidd: www.bangor.ac.uk/adu/

GWOBR AM RAGORIAETH



Yn cael eu llongyfarch gan Yr Athro Merfyn Jones, yr Is-Ganghellor, mae (ch-dd) Maldwyn Jones, Sue Peet a Gwynne Parry Jones.

Derbyniodd tri aelod staff Wobr am Ragoriaeth a siec am £1,000 mewn noson gyflwyniadau a arweiniwyd gan yr Is-Ganghellor a'r Cofrestrydd yn y Ganolfan Reolaeth yn ddiweddar. Mae'r Wobr hon yn cydnabod a gwobrwyo cyflawniad neu wasanaeth neilltuol gan aelodau staff Cefnogi'r Brifysgol.

"Pwrpas y wobr hon yw cydnabod rhagoriaeth, a chydabod y cyfraniad hanfodol mae staff cefnogi yn ei wneud i'r Brifysgol. Mae pob aelod staff – beth bynnag bo'u swydd – yn chwarae rhan yn llwyddiant y Brifysgol," meddai Dr David Roberts, Cofrestrydd y Brifysgol.

Y tri derbynnydd oedd: Gwynne Parry Jones, Technegydd yn yr Ysgol Gwyddorau Eigion, â gafodd ei gydnabod am ei waith neilltuol, ei egni a'i frwdfrydedd wrth reoli'r fflyd o gychod bychain yn yr Ysgol. Nododd un enwebydd "Am bron i ugain mlynedd, mae wedi gweithredu cychod bychain i'r Ysgol heb yr un ddamwain, ac mae llawer o ymchwil gwerthfawr wedi cael ei chwblhau'n llwyddiannus o ganlyniad i'w frwdfrydedd a'i broffesiynoldeb".

Maldwyn Williams Jones, Goruchwyliwr Diogelwch, Ystadau. Cafodd Mashi, fel y mae staff yn ei adnabod, ei enwebu gan 5 aelod staff o'r tu allan i'w adran. Roedd ei enwebiad yn cynnwys brawddegau fel "Dwi'n dibynnu arno 100% ac yn sylwi ar ei absenoldeb ar y dyddiau pan na fydd o gwmpas", "mae o bob amser yn fodlon eich helpu, does dim yn ormod o drafferth iddo, ac mae ganddo wen ar ei wyneb bob amser".

Sue Peet, Gweinyddwr Addysgu a Dysgu, Ysgol Seicoleg. Mae Sue wedi bod yn ganolog i weithgareddau addysgu Seicoleg ers bron i ugain mlynedd. Roedd ei phapurau enwebu yn llawn cefnogaeth a chydabyddiaeth o'i hymroddiad, effeithlonrwydd, sylwgarwch a'i chyfraniad ffyddlon i'r Ysgol dros y blynyddoedd. Caiff Sue ei chydabod hefyd am ei chefnogaeth neilltuol i fyfyrwyr yn academiaidd ac yn bersonol.

Dyma'r ail set o Wobrwyon am Ragoriaeth i gael eu rhoi. Mae'r rhai sy'n gymwys i gael eu hystyried yn aelodau llawn neu ran-amser o'r staff cefnogi o bob graddfa.

UCH



Andrew Edwards



David Sullivan



Peter Flinn



Elizabeth Carver

HANES CYMRU AR DAITH

Teithiodd pedwar o haneswyr Bangor i Toronto dros yr haf i gymryd rhan yng Nghynhadledd Flynnyddol Hanes a Diwylliant Cymru Cymdeithas Gogledd America.

Cyflwynodd y papurau elfennau allweddol a ailaseswyd o hanes modern Cymru, gan adlewyrchu arbenigedd pennaf yr Ysgol Hanes, Hanes Cymru ac Archaeoleg mewn hanes Cymru ar ôl y rhyfel, a'i benderfyniad i edrych ar destunau o arwyddocâd cyfoes.

Roedd papurau Dr Andrew Edwards a Dr Wil Griffiths wedi'u seilio ar benodau ar gyfer monograff ar ddatganoli yng Nghymru, sydd i'w gyhoeddi gan Oxford Press. Mi wnaethant edrych ar sut yr oedd agweddau gwleidyddol a diwylliannol at lywodraeth ddatganoledig ymhlith cenedlaetholwyr yng Nghymru (y tu mewn a'r tu allan i Blaid Cymru) yn newid

rhwng 1945 a 1968. Mae cyhoeddi'r monograff hefyd yn nodi diwedd project llwyddiannus yr Ysgol ar hanes datganoli yng Nghymru, a gyllidwyd gan yr ESRC.

Cyfrannodd papurau'r myfyrwyr ôl-radd, Mari Wiliam a Michelle Walker, at banel a edrychodd ar elfennau o hanes cymdeithasol diweddar, sydd heb eu hastudio llawer, ond sy'n arwyddocaol iawn. Roedd papur Mari, a oedd yn dwyn y teitl diddorol "*Welsh Dolls in Sunny Rhyll*", yn edrych ar effaith pasiantau harddwch a hunaniaeth y Gymru gefnog newydd yng nghanol y 1950au. Edrychodd bapur Michelle ar agweddau mewnfydwyr Seisnig a symudodd i Gymru rhwng 1970 a 2008, ac roedd wedi'i seilio ar ganfyddiadau o broject PhD cyntaf yr Ysgol a oedd wedi'i seilio ar hanes llafar. Cyllidwyd trip Michelle gan yr ESRC a'r *Royal Historical Society*.

Cafodd academyddion Bangor eu gwobrwyo am eu rhagoriaeth mewn addysgu rhagorol a'u gofal o fyfyrwyr yn ystod seremonïau graddio'r haf. Dyfarnwyd chwe Chymrodoriaeth Ddysgu i: Elizabeth Carver, Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd; Andrew Edwards, Ysgol Hanes, Hanes Cymru ac Archaeoleg; Peter Flinn, Ysgol Cerddoriaeth; Margaret Gould a David Sullivan, Coleg Addysg a Dysgu Gydol Oes, Iestyn Pierce, Ysgol Peirianeg Electronig.

Roedd pedwar aelod staff yn dathlu hefyd ar ôl graddio gyda graddau cyntaf o raglen graddau

AFBWYNTIAU'R HAF



Sian Lloyd



RHodri Glyn Thomas



Griff Rhys Jones



Llyr Williams



Margaret Gould



Juan Carlos Castilla



Guto Harri



Iestyn Pierce



Peter Bennett-Jones




Elfed ap Nefydd Roberts



Merfyn Jones gyda Meic Povey a Gwilym Owen



Jim Perrin



John Thomas

rhan-amser yr Ysgol Dysgu Gydol Oes, sef:

Mark Duggan, Gwasanaethau'r Llyfrgell, a gafodd BA mewn Rhyngryd, Dysgu a Sefydliadau a Rhian Evans, Adran Marchnata a Chyfathrebu Corfforaethol, Jenny Greene, hefyd o Wasanaethau'r Llyfrgell a Wendy Williams, Cofrestrfa Academaidd, a gafodd y radd BA mewn Astudiaethau Cymdeithasol.

Ymunwyd â nhw mewn gwahanol seremonïau gan ddeuddeg unigolyn o gefndiroedd a galwedigaethau mor amrywiol â'r gyfraith, gwyddoniaeth, diwinyddiaeth, y cyfryngau a mynydda, a



Aelodau staff a raddiodd gyda graddau cyntaf: Wendy Williams, Rhian Evans, Jenny Greene a Mark Duggan.

dderbyniodd Gymrodoriaethau Er Anrhydedd yn ystod wythnos y seremonïau graddio eleni.

Y rhain oedd: Cadeirydd Tiger Aspect Television, Peter Bennett-Jones; Cyfarwyddwr Cyfathrebu Maer Llundain, Guto Harri; y cyflwynydd teledu, Griff Rhys Jones; y cyflwynydd tywydd, Sian Lloyd; newyddiadurwr a darlledwr Gwilym Owen; actor a dramodydd, Meic Povey, Gweinidog wedi ymddeol ac awdur, Parch Elfed ap Nefydd Roberts ac alumni Prifysgol Bangor, Juan Carlos Castilla, Athro mewn Ecoleg y Môr, Chile, Rhodri Glyn Thomas A.C. a'r dringwr creigiau a'r ysgrifennwr teithiau, Jim Perrin.

GRANTIAU AR GYFER YMCHWIL ÔL- DDOETHUROL GAN HANESWYR YM MANGOR

Bydd yr Ysgol Hanes, Hanes Cymru ac Archaeoleg yn manteisio oddi wrth ddau grant ar gyfer ymchwil ôl-ddoethurol ar hanes Cymru. Mae'r rhain yn dangos bod cyfleoedd i ymchwilwyr sydd newydd ddechrau eu gyrfa gael cymrodoriaethau ymchwil. Hefyd, maent yn dangos y cyfraniad ôl-ddoethurol pwysig y gall ysgolheigion ei wneud yn y dyniaethau.

Mae Dr Katharine Olson wedi ymuno â'r Ysgol ym mis Hydref yn dilyn ei llwyddiant yng nghystadlaethau Cymrodoriaethau Ôl-ddoethurol cystadleuol iawn yr Academi Brydeinig. Bydd y grant tair blynedd yn ei galluogi i ysgrifennu hanes cymdeithasol arloesol ac amlddisgyblaethol yn ymwneud â chrefydd yng Nghymru o gyfnod yr Eglwys cyn y Diwygiad hyd at y Rhyfel Cartref: **'Local Contexts of Change: Popular Religion, Community, and Confessional Identity in Wales, c.1500-1640'**. Mae Dr Olsen wedi graddio o brifysgolion Chicago a Harvard, ac

ar hyn o bryd mae'n dal Ysgoloriaeth Syr John Rhys mewn Astudiaethau Celtaidd yng Ngholeg Iesu, Rhydychen. Nid yw Bangor yn ddieithr i Dr Olson gan iddi dreulio tymor yma fel myfyriwr cyfnod yn 2003; yn ogystal, roedd Yr Athro Huw Pryce yn aelod allanol o bwllgor trafod ei thesis Ph.D. yn Harvard. Bydd yn ychwanegu ymhellach at gryfderau'r Ysgol yn hanes yr oesoedd canol a'r cyfnod modern cynnar. Bydd hi hefyd yn ychwanegiad gwerthfawr at y corff ehangach o ysgolheigion - yng Ngholeg y Celfyddydau a'r Dyniaethau Bangor a thu hwnt - y mae eu hymchwil yn gysylltiedig â'r Sefydliad dros Astudiaethau Canoloesol a Modern Cynnar (IMEMS).

Mae arbenigedd yr Ysgol mewn hanes modern a chyfoes wedi cael ei chynabod gan Bwyllgor Cyhoeddiadau ac Ymchwil Gydweithredol Prifysgol Cymru, sydd wedi dyfarnu ei broject ymchwil blwyddyn yn Hanes Cymru ar gyfer 2008/9 i'r Athro Duncan

Tanner a Dr Andrew Edwards, a fydd yn cyfarwyddo **'Deddfau'r Iaith Gymraeg a Gweithredu dros yr Iaith Gymraeg 1964-2001: Project Arbrofol'**. Mae gan y cyfarwyddwyr brofiad sylweddol ym maes hanes llafar ac mae'r Athro Tanner wedi defnyddio'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth mewn ffordd arloesol i ddatgelu dogfennau swyddogol yn ymwneud â hanes diweddar. Bydd y project yn ymchwilio pam y cyflwynwyd Deddfau'r Iaith Gymraeg 1967 a 1993, dylanwad a dull gweithredu Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a phwysigrwydd cymharol pwysau o du gweithredwyr dros yr iaith a grwpiau eraill (yn cynnwys pobl o fewn y llywodraeth) ar basio deddfwriaeth yn ymwneud â'r Gymraeg a datblygiad hynny. Gwneir yr ymchwil gan ymchwilydd ôl-ddoethurol (i'w benodi) a bydd yn arwain at gais am gefnogaeth i broject mwy a fydd yn adeiladu ar ei ddarganfyddiadau.

Rhaglen Datblygu Technegwyr



Y Technegwyr a fu'n mynychu'r rhaglen

Lansiwyd 'Raglen Datblygu Technegwyr' ar gyfer staff technegol y Brifysgol ym Mai 2008, fel rhan o broses Uned Datblygu Staff yr Adran Adnoddau Dynol, i wella'i darpariaeth o raglenni wedi'u haddasu'n arbennig i staff. Roedd y fenter yn cynnwys cyfres o ddigwyddiadau dysgu i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth, a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd rôl y technegydd.

Roedd y rhaglen yn cynnwys 6 sesiwn wedi'u seilio ar Strategaethau'r Brifysgol. Roedd cyflwyniadau'n cynnwys:

- Newidiadau mewn Addysgu a Dysgu: rôl technegwyr

- Iechyd a Diogelwch
- Rôl y Technegydd mewn Gwyddoniaeth
- Menter ym Mangor
- Gwella gallu a chyfleoedd datblygu
- Rhagoriaeth mewn Ymchwil

Roedd pob sesiwn dwy awr yn cynnwys cyflwyniad a thaith dywys o amgylch y gwahanol fannau technegol ar draws y Brifysgol. Bu'r rhain yn boblogaidd iawn. Roedd y safleoedd yr ymwelwyd â nhw'n cynnwys Gwyddorau Eigion ym Mhorthaethwy, Canolfan newydd yr Amgylchedd, yr Uned Argraffu, Labordai Sgiliau Addysg, Porth Arloesi Bangor, a'r Ysgol Cemeg a Seicoleg.

Hoffai'r Tîm Datblygu Staff ddiolch i'r holl gyfranwyr am eu cymorth a sicrhaodd lwyddiant y rhaglen. Y siaradwyr oedd Yr Athro Colin Baker, Dr John Latchford, Gareth Wynn Jones, Yr Athro Maher Kalaji, Dr David Joyner a'r Athro Graeme Harper. Bydd y Tîm Datblygu Staff yn trefnu rhaglen arall yn 2009, a dylai unrhyw un sy'n dymuno cael rhagor o wybodaeth, neu gofrestru eu diddordeb, e-bostio Mari Ellis Roberts ar pose04@bangor.ac.uk

Personalia



PENODI DIRPRWY IS-

GANGHELLOR NEWYDD Mae Prifysgol Bangor wedi penodi'r Athro Hilary Lappin-Scott yn Ddirprwy Is-Ganghellor newydd dros Ymchwil a

Menter. Bydd yn olynu'r Athro John Farrar a ymddeolodd yn gynharach eleni.

Ar hyn o bryd mae'r Athro Lappin-Scott yn Ddeon y Gyfadran Astudiaethau Ôl-radd ym Mhrifysgol Exeter.

Yn raddedig o Brifysgol Warwick, fe'i penodwyd yn Athro mewn Microbioleg Amgylcheddol yn Exeter ym 1999. Mae'n Gymrawd yr *American Academy for Microbiology* ac yn Llywydd yr *International Society for Microbial Ecology*.

Meddai'r Is-Ganghellor, Yr Athro Merfyn Jones: "Pleser mawr yw cyhoeddi penodiad Yr Athro Lappin-Scott. Mae ymchwil yn ganolog i genhadaeth Prifysgol Bangor a

bydd y penodiad hwn yn cynyddu ein gallu i weithredu a'n perfformiad ym meysydd ymchwil a menter." Bydd Yr Athro Lappin-Scott yn dechrau ym Mangor ar 1 Ionawr, 2009.

CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU

GWYBODAETH A LLYFRGELLOEDD Penodwyd Mr David Leamont i swydd newydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Gwybodaeth a Llyfrgelloedd. Bydd yn dechrau yn ei swydd yn llawn-amser fis Ionawr. Mae Mr Leamont yn uwch ymgynghorydd profiadol ym maes Gwybodaeth a Chyfathrebu, a bu'n gyfrifol am nifer o brojectau mawr mewn swyddi diweddar. Ar hyn o bryd, mae ym Mhrifysgol y Celfyddydau, Llundain.

PENNAETH NEWYDD ASTUDIAETHAU

CREADIGOL A'R CYFRYNGAU Penodwyd Dr Stephanie Marriott i swydd Pennaeth yr

Ysgol Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau, a bydd yn dechrau yn eu swydd yn Ionawr 2009. Ar hyn o bryd, mae'n gweithio ym Mhrifysgol Stirling yn yr Adran Ffilm, y Cyfryngau a Newyddiaduraeth. Mae Dr Marriott yn Gadeirydd Pwyllgor Ymchwil yr adran, ac mae hi hefyd wedi chwarae rhan fawr wrth ddatblygu strategaethau addysgu a dysgu yn y Brifysgol.

ATHRAWON A DARLLENYDDION

Llongyfarchiadau i'r canlynol sydd wedi derbyn Cadeiriau Personol: Andrew Hiscock – Ysgol y Saesneg; Nancy Edwards a Raimund Karl – Ysgol Hanes, Hanes Cymru ac Archaeoleg; Oliver Turnbull a Guillaume Thierry – Ysgol Seicoleg.

Mae Dyfrig Hughes o IMSCaR a Robert Ward o'r Ysgol Seicoleg wedi cael dyrchafiad i swydd Darlennydd.


Croeso yn China

Cafodd Stephen Mudge o Ysgol Gwyddorau Eigion Prifysgol Bangor ei dderbyn gan gyn Is-Gadeirydd Cyngres Cenedlaethol y Bobl, China (Is-Lywydd i bob pwrpas) Yr Athro Zhou Guangzhao, mewn cyfarfod Ffforenseg Amgylcheddol yn Qingdao, China. Ffforenseg Amgylcheddol yw astudiaeth wyddonol o lygredd, neu elfennau eraill nad ydynt yn digwydd yn naturiol, a geir yn yr amgylchedd.

Roedd Stephen Mudge yn Is-Gadeirydd y cyfarfod Ffforenseg Amgylcheddol cyntaf a gynhaliwyd yn China dan nawdd y *State Oceanographic Administration, The North China Sea Environmental Monitoring Centre a The Key Laboratory of Marine Spill Oil Identification and Damage Assessment Technology*. Cyflwynodd bedwar papur, yn cynnwys y prif anerchiad ar yr angen i wahaniaethu hen lygredd oddi wrth lygredd newydd, sy'n arbennig o berthnasol i'n deddfwriaeth newydd ar ddifrod amgylcheddol (Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer), 2008).

Fel rhan o gydweithio ehangach a mabwysiadu Ffforenseg Amgylcheddol gan China, penodwyd Stephen Mudge yn Athro ar Ymweliad ac yn Arbenigwr Gwadd yn *The North China Sea Environmental Monitoring Centre*.

Yn ninas arfordirol Qingdao y cynhaliwyd y digwyddiadau hwylio ar gyfer Gemau Olympaidd yr haf hwn. "Dydw i



Pennawd llun: Dr Stephen Mudge yn derbyn y penodiad swyddogol fel Athro ar Ymweliad ac Arbenigwr Gwadd gan Dr Zhenhui Gao, Cyfarwyddwr y *North China Sea Environmental Monitoring Centre*.

erioed wedi gweld gwlad mor frwdfrydig am y Gemau Olympaidd. Roedd cyfeiriadau at y Gemau ymhob man ac roedd y bobl ar y stryd i weld yn falch iawn o gael croesawu'r gemau," dywedodd Dr Mudge.

Rhannu ein harbenigedd

Ar ymweliad diweddar â China, penodwyd Yr Athro Barrie Johnson o'r Ysgol Gwyddorau Biolegol yn Athro ar Ymweliad ym Mhrifysgol Canolog y De, Changsha. Mae gan y Brifysgol adran beirianeg o bwys sy'n prosesu mwynau, ac mae ganddi ddiddordeb mewn datblygu bioprosesu mwynau crai a phur. Mae bio-mwyngloddio neu brosesu, gan ddefnyddio micro-organebau sydd i'w canfod yn naturiol, i dynnu metelau o fwynau craidd, yn biotechnoleg sy'n tyfu fwyfwy ar draws y byd, a dyma faes arbenigedd Yr Athro Johnson, a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Athro Barrie Johnson, Ysgol Gwyddorau Biolegol (chwith) gyda'r Athro Giu Guanzhou (canol), Prifysgol Canolog y De, Changsha ac Athro Douglas Rawlings, Prifysgol Stellenbosch (dde)



Penodwyd Yr Athro Johnson hefyd yn Athro (ar ymweliad) er Anrhydedd ym Mhrifysgol Exeter yn gynharach eleni. Trefnodd weithdy llwyddiannus iawn i wyddonwyr o China ym Mhrifysgol Bangor yn Awst 2008, a noddwyd ar y cyd gan y Gymdeithas Frenhinol a Gweinyddiaeth Addysg China. Bydd cysylltiadau ymchwil rhwng Bangor a phrifysgolion yn China ym maes bioprosesu mwynau yn datblygu ymhellach yn 2009.

Cydweithio dros Gymru



Yn lansio WISERD ym Mangor roedd (ch-dd) Athrawon Graham Day, Huw Beynon (Cyfarwyddwr, Prifysgol Caerdydd) Howard Davis, (Cyd-Gyfarwyddwr) a Stuart McLeay

Mae'r Brifysgol wedi dod ynghyd â sefydliadau eraill i fod yn rhan o ddau project addysg uwch newydd ar y cyd yn ddiweddar.

Mae'r **Ysgol Gwyddorau Cymdeithas** yn rhan o broject £9m a fydd yn helpu'r llywodraeth, gwneuthurwyr polisi a busnesau fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol o bwys yng Nghymru.

Mae Sefydliad Cymru dros Ddulliau, Data ac Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd (WISERD) yn dod â gwyddonwyr cymdeithasol blaenllaw prifysgolion at ei gilydd i ddatblygu darlun mwy manwl o bobl Cymru drwy gasglu, dadansoddi a lledaenu data mewn meysydd yn cynnwys gweithgarwch a thwf economaidd, addysg, cyfranogiad cymunedol ac iechyd a gofal cymdeithasol.

Ariannir y project ar y cyd am dair blynedd gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Mae Prifysgolion Caerdydd, Aberystwyth ac Abertawe a Phrifysgol Morgannwg hefyd yn cyfrannu.

Dywedodd y Prif Weinidog, Rhodri Morgan, "Mae hwn yn ddatblygiad sylweddol mewn ymchwil gymdeithasol sy'n berthnasol i Gymru. Bydd y ganolfan ragoriaeth hon yn mynd â ni ymhellach ar hyd y llwybr hwn gan fod llunio polisi effeithiol yn dibynnu ar ddata o safon, ac wedi i'r wybodaeth honno

gael ei chasglu, rydym yn cyrraedd y man cychwyn ar gyfer datrys problemau a datblygu polisi. Bydd gwaith WISERD yn galluogi i'r gymuned gwyddorau cymdeithas gyfrannu mwy tuag at fynd i'r afael â'r problemau mwyaf sy'n ein hwynebu yma yng Nghymru."

Dywedodd yr Athro Ted Gardener, Pennaeth Coleg Busnes, Gwyddorau Cymdeithas a'r Gyfraith ym Mhrifysgol Bangor: "Mae gan ymchwil i wyddorau cymdeithas ym Mangor arbenigwyr sy'n rhyngwladol enwog ym maes newid economaidd a chymdeithasol, diwylliant a chymuned, iechyd a ffordd o fyw. Bydd y sefydliad yn sicrhau bod yr ymchwil yn gallu cystadlu gyda'r gorau yn rhyngwladol a bydd ganddo gymwysiaidau ymarferol er budd pob cymuned yng Nghymru".

Yn fwy diweddar, cyhoeddwyd cyfraniad yr **Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd** yn Ysgol Cymru dros Ymchwil mewn Gofal Sylfaenol.

Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, bydd yr Ysgol Cymru-gyfan yn darparu ymchwil berthnasol i helpu â datblygu gofal sylfaenol o ansawdd uchel mewn Meddygaeth Deuluol, Fferylliaeth, Nyrso, Optometreg a Deintyddiaeth yn y lle cyntaf. Ei nod yw datblygu a rhannu rhagoriaeth mewn ymchwil mewn gofal sylfaenol ac, yn ei dro, gweithio gyda

gweithwyr proffesiynol ar draws pob disgyblaeth berthnasol i wella ansawdd a maint ymchwil mewn gofal sylfaenol yng Nghymru.

Yn ôl y Prif Weinidog, Rhodri Morgan, "Mae ymchwil yn dangos bod y gwledydd hynny sydd â gwasanaethau iechyd gofal sylfaenol cadarn yn gallu rheoli costau iechyd orau a chael pobl sy'n fodlon â darpariaeth gofal ac sydd mewn iechyd da.

"Bydd prif bwyslais Ysgol Cymru dros Ymchwil mewn Gofal Sylfaenol ar hyrwyddo gwelliant amlwg yn ansawdd a maint ymchwil amlddisgyblaethol. Bydd ymchwil o safon rhyngwladol wedyn yn cynhyrchu tystiolaeth sy'n berthnasol yn lleol a rhyngwladol i fod yn sail i ymarfer a pholisi yng Nghymru a thu hwnt."

Mae'r Ganolfan Ymchwil Iechyd-Gysylltiedig, yn yr **Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd** yn rhan o'r bartneriaeth. Dywedodd Cyfarwyddwr y Ganolfan, yr Athro Jane Noyes: "Mae hwn yn gyfle gwych i'n hymchwylwyr gyfrannu eu harbenigedd i'r bartneriaeth. Bydd y bartneriaeth yn rhoi cyfleoedd i ymchwilio i faterion gofal sylfaenol mae pobl yn eu hwynebu yng ngogledd Cymru, ac yn ein galluogi i wneud ymchwil o berthnasedd rhyngwladol."

Partneriaid eraill y Brifysgol yw Caerdydd, Abertawe a Morgannwg.

ELWA AR EIN HARFORDIR

Mae Prifysgol Bangor yn arwain cais uchelgeisiol (i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, o dan Gydgyfeiriant) i gydlyn ac integreiddio arbenigedd y môr yng Nghymru i greu partneriaeth bwysig newydd.

Bydd SEACAMS (Ehangu Cynaliadwy'r Sectorau Cymhwysol yr Arfordir a'r Môr) yn tynnu ar arbenigedd Bangor mewn gwyddor môr yn yr Ysgol Gwyddorau Eigion, ynghyd â gwyddonwyr amgylcheddol eraill ac arbenigwyr polisi o Brifysgol Aberystwyth, Abertawe a Chaerdydd.

Bydd y fenter yn cyfuno amrywiaeth unigryw o arbenigedd a gydnabyddir yn rhyngwladol. Bydd yn ddigon eang i gefnogi'r polisi sydd ei angen ar gyfer rheolaeth gynaliadwy o adnoddau arfordirol



a silffoedd y môr yn erbyn cefndir o newid mewn hinsawdd.

"Ein nod yw ehangu'r sector môr masnachol, mewn cydweithrediad â Mentrau Bychain a Chanolig (SMEs) ac Asiantaethau'r Llywodraeth, er mwyn cynyddu'r manteision i Gymru, mewn modd sy'n gynaliadwy i amgylchedd y môr a'r sector diwydiannol. Rydyn ni'n ceisio integreiddio ymchwil a pholisi sylfaenol a chymhwysol i fod yn sail i'r datblygiad cynaliadwy hwn, gartref ac yn fyd-eang," eglurodd arweinydd y project a

Phennaeth yr Ysgol Gwyddorau Eigion, Yr Athro Colin Jago. "Gyda pholisiau a gwybodaeth wedi'i seilio ar dystiolaeth, mae yna gyfle i ymdrin â heriau ac elwa ar gyfleoedd yn amgylchedd y môr. Er enghraifft, mae yna ddatblygiadau posibl sylweddol

iawn mewn dyframaeth y môr ac ynni adnewyddadwy'r môr, a gellid canolbwyntio llawer o hyn yng Nghymru".

Bydd SEACAMS yn ymdrin ag eigion arfordirol a defnyddio adnoddau, asesiadau ansawdd amgylcheddol, datblygiadau adnoddau cynaliadwy, adnoddau daearegol a rheolaeth a pholisi technoleg a'r parth arfordirol. Cafwyd menter lwyddiannus ar y cyd eisoes gyda grŵp archfarchnad *The Cooperative* sydd wedi lansio dewis newydd, cynaliadwy o fwyd môr yn ddiweddar.


GARDD YN ENNILL GWOBRAU



Cyhoeddwyd bod *Hortus Monensis Garden Design* – sy'n gyfrifol am gynllunio a gosod yr ardd yng Nghwad mewnol Adeilad Brigantia, yn fuddugol yng nghategori 'Defnydd Gorau o Blanhigion mewn Tirwedd' a 'Project Masnachol Gorau' yng ngwobrwyon tirwedd "*Horticulture Week*" Prydain yr wythnos ddiwethaf. Go brin y clywyd am neb yn ennill y ddau categori, felly mae hyn yn dipyn o gamp. Y categorïau yw:

Y Defnydd Gorau o Blanhigion yn y Tirwedd – Rhedyn ar gyfer Brigantia a'r Project Masnachol Gorau - Project Brigantia, Bangor Gellwch fynd i'r ardd drwy Dderbynfa Brigantia. Os hoffech ddarllen mwy amdano, ewch i wefan y cylchgrawn yn www.hortweek.com.

Steve Brown (chwith) yn derbyn ei wobwr gan Reolwr Amgylcheddol, Ricky Carter.



Peintio'r Byd yn Wyrdd

Wyddoch chi faint yr ydyn ni'n ei wario ar ynni a dŵr bob blwyddyn? Neu faint o wastraff, nwyon tŷ gwydr a charthffosiaeth yr ydyn yn eu cynhyrchu? Sut ydyn ni'n dod ymlaen gyda'n hailgylchu, a pha mor dda ydyn ni o gymharu â phrifysgolion eraill pan ddaw i faterion Gwyrdd? Gellir datgelu hyn i gyd yn awr, a mwy, drwy fynd i dudalennau gwe newydd sbon y Brifysgol ar yr amgylchedd yn www.bangor.ac.uk/eo/environment

Gyda'r wybodaeth hon tu cefn iddo, mi wnaeth Steve Brown, Crefftwr yn yr Adran Ystadau a Chyfleusterau, ennill y wobwr gyntaf yng nghwis diweddar "Diwrnod Amgylchedd y Byd" y Cenhedloedd Unedig, a drefnwyd gan ei Adran. Derbyniodd radio weindio sydd hefyd yn gweithio â phŵer yr haul. Y thema eleni oedd "Carbon Deuocsid – Claddu'r Arferion", ac ymunodd isadran Ystadau ac Eiddo'r Adran ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i greu stonddin arddangos ym Mhrif Adeilad y Celfyddydau i dynnu sylw at berfformiad amgylcheddol y Brifysgol, a rhai o heriau'r ydym yn eu hwynebu ar gyfer y dyfodol. Roedd Steve yn arbennig o hapus gyda'i wobwr – nid yn unig fod ganddo ddiddordeb mewn materion amgylcheddol, mae o hefyd yn wersyllwr brwd, a gall fod yn anodd cael gafael ar fatris yng nghanol nunlle!

Edrychwch allan am fwy o gyfleoedd i ennill gwobrau amgylcheddol yn fuan!

Os oes gennych unrhyw sylwadau am faterion amgylcheddol ym Mhrifysgol Bangor, e-bostiwch nhw at environment@bangor.ac.uk.

NOFWYR YN CAEL MEDALAU A THORRI RECORD

Fe ddaeth dau aelod staff â medalau a recordiau i Fangor tra'r oeddent yn cynrychioli eu clwb nofio lleol – Meistri Arfon – ym Mhencampwriaeth *Masters Long Course Prydain* yn yr Aquatics Centre, Manceinion. Fe gafodd Stel Farrar, sy'n addysgu Cymraeg yn y Coleg Addysg a Dysgu Gydol Oes, a Gill Windle, cymrawd ymchwil yng Nghanolfan Datblygu Gwasanaethau Dementia Cymru, lwyddiant mawr gyda 2 record i Gymru a 9 medal rhyngdynt. Mae hyn yn eu rhoi yn y 10 safle uchaf ym Mhrydain ar gyfer pob un o'u digwyddiadau.

Mi nofiodd Stel Farrar yn wych i ennill y fedal aur yn yr 800m a'r 1500m dull rhydd yn y grŵp 45 – 49 oed. Mae hi yn y safle 1af ar hyn o bryd am yr ymdrechion hyn. Casglodd Stel fedalau o bob lliw gyda medalau arian yn y dull pili-pala 200m a'r dull rhydd 100m a medalau efydd yn y dulliau cymysg unigol 200m a'r dull pili-pala 100m.

Roedd Gill Windle yn cystadlu yn y grŵp 40 – 44 oed, ac mi wnaeth hithau wella ar ei hamser record Cymreig ei hun yn y dull rhydd 50m ble gorfennodd yn ail mewn maes cryf gydag amser o 30.93 eiliad. Yn



Stel Farrar (chwith) a Jill Windle yn dilyn eu buddugoliaethau diweddar

anffodus, bachwyd y record a safle'r fedal aur gan nofiwr o Gaerdydd, a orffennodd ddim ond 1/100fed eiliad yn gynt! Enillodd y fedal efydd yn y dull pili-pala 200m, gan osod record newydd i Gymru. Mi wnaeth Gill hefyd osod record newydd yn y dull rhydd 100m, a chafodd amseroedd gorau personol a 4ydd lle ar gyfer y 200m dulliau cymysg unigol a'r dull rhydd 400m.

Mae nofio meistri (*masters swimming*) yn cynnwys yr amrywiaeth gyfan o allu o nofio ffitrwydd achlysurol i nofio cystadleuol iawn wedi'i drefnu. Mae angen i nofiwr 'meistr' fod dros 25 oed, ond ceir nifer o gystadlaethau sy'n cynnwys digwyddiadau i oedolion iau 19 oed a hŷn. Am fwy o wybodaeth am Feistri Arfon, ewch i www.arfonmasters.org.uk neu siaradwch â'u hyfforddwr, Jenny Shaw, ar 01248 430811.



Taith i Beriw ar gyfer Canser y Coluddyn

Bydd Dave Lloyd, Darlithydd yn yr Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd, yn cerdded ar hyd lwybr Inca Periw ym mis Mai 2009 i godi arian ar gyfer yr elusen, 'Beating Bowel Cancer'.

Eglura Dave, "Mae canser y coluddyn wedi effeithio ar lawer o 'mywyd. Bu farw fy mam o'i herwydd 30 mlynedd yn ôl, fel y gwnaeth ei mam hithau cyn hynny. Mi wnaeth fy mrawd drechu canser y coluddyn ychydig flynyddoedd yn ôl; yn drist iawn, bu farw un o fy ffrindiau agosaf - Dr Rodney Hughes, gynt o'r Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd, yn gynharach eleni o ganlyniad i'r cyflwr. Mae nifer o berthnasau a ffrindiau eraill wedi cael canser y coluddyn hefyd, rhai wedi trechu'r bwystfil a rhai heb. Mae'r elusen 'Beating Bowel Cancer' yn ceisio am fyd lle bydd pawb yn trechu canser y coluddyn".

Bydd Dave, sydd hefyd yn hyfforddwr clwb karate Seki Ryu Zan, wedi'i leoli ar Safle'r Normal a Maes Glas, yn talu am ei holl gostau personol ar gyfer y daith, ac yn ei gwblhau yn ei amser ei hun. Mae'n gwahodd cyfranwyr i ymweld â'i dudalen cyfraniadau yn www.justgiving.com/davelloyd. Gall noddwyr corfforaethol gysylltu ag ef drwy e-bostio daveperu2009@yahoo.co.uk.

Dylid anfon unrhyw eitem i'w cynnwys yn y rhifyn nesaf o *Newyddlen* at y Golygydd: Elinor Elis-Williams, Swyddog y Wasg, Adran Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata, Prifysgol Bangor. E-bost: press@bangor.ac.uk

Cyhoeddir *Newyddlen* gan Adran Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata, Prifysgol Bangor.

© Prifysgol Bangor. Cysylltwch â'r Golygydd am ganiatâd i atgynhyrchu unrhyw erthygl. Ceir newyddion diweddar o'r Brifysgol ar www.bangor.ac.uk